# Y PWYLLGOR CYMUNEDAU A DIWYLLIANT

## CC(3)-06-08(p.1): 16 Ebrill 2008

#### TYSTIOLAETH I'R PWYLLGOR CYMUNEDAU A DIWYLLIANT: CAM-DRIN DOMESTIG

#### Diben

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru - "Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan" a rhoi gwybodaeth sy'n disgrifio polisïau a mentrau presennol yn yr Adrannau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Thai.

#### Cefndir Polisi Cyffredinol (Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol: Dr Brian Gibbons)

2. Mae Cam-drin Domestig yn drosedd gyffredin sy'n cynnwys 15% o bob achos treisgar gyda thua un o bob pedair merch ac un o bob chwe dyn wedi dioddef o gam-drin domestig ers merch yn 16 oed. Yng Nghymru cofnodwyd tua 35,000 o achosion i'r heddlu yn 2006/07 ac yn y DU caiff tua dwy ferch yr wythnos eu lladd gan bartner neu cyn bartner.

3. Yn 2001 yng Nghymru a Lloegr, amcangyfrifodd y Swyddfa Gartref fod cyfanswm cost cam-drin domestig yn £23 biliwn gyda £2.7 biliwn wedi'u hamsugno gan gyflogwyr a gweithwyr.

4. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn gweithio ar draws nifer o feysydd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig a gwella darpariaeth ym mhob sector.

5. Mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Swyddfa Gartref yn amcangyfrif y bu gostyngiad o 59% o ran amlygrwydd cam-drin domestig ers 1995. Yng Nghymru bu cynnydd mawr yn nifer achosion yr heddlu ers 2005 a rhoddir cymorth llawer gwell i ddioddefwyr. Yn allweddol, mae pob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yng Nghymru yn nodi cynnydd da o ran codi ymwybyddiaeth a chefnogi dioddefwyr.

6. Cafodd y Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr gydsyniad brenhinol yn 2004. Mae'r Ddeddf hon yn cynnwys nifer o bwerau newydd a diwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol, i gynyddu'r diogelwch sydd ar gael i ddioddefwyr pan ddaw achosion at sylw'r system cyfiawnder troseddol.

7. Er mwyn cefnogi'r newidiadau o ran deddfwriaeth, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Strategaeth Cam-drin yn y Cartref ar 30ain Mawrth 2005. Mae'r Strategaeth yn darparu fframwaith pwysig ar gyfer datblygu camau gweithredu lleol ac mae'n pwysleisio'r angen am gydweithio ag asiantaethau lle y rhennir gwybodaeth ac arfer gorau. Mae cam-drin domestig, a'r troseddau difrifol sy'n gysylltiedig â hynny, yn gofyn am weithredu ar y cyd ac mae'r Strategaeth yn nodi sut y gellir gwneud hyn.

8. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar bum canlyniad allweddol:

Lleihau nifer y lladdiadau oherwydd cam-drin domestig

Lleihau amlygrwydd cam-drin domestig

Cynyddu'r gyfradd o gam-drin domestig a gofnodir

Cynyddu'r gyfradd o droseddau cam-drin domestig y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt

Sicrhau y caiff dioddefwyr cam-drin domestig eu diogelu a'u cefnogi'n ddigonol

Caiff y canlyniadau hyn eu cyflwyno yng Nghymru drwy wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig ar lefel genedlaethol a lleol.

#### Cyflwyno'r Strategaeth

9. Ers mis Mawrth 2005, cyflwynwyd adroddiadau cynnydd blynyddol rheolaidd ar gyflwyno'r Strategaeth i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a nodwyd y gwnaed cynnydd da ym mhob adroddiad. Ymhlith rhai o'r uchafbwyntiau allweddol ers 2005 mae:

Bu angen a pharodrwydd gwych i weithio ar draws portffolios gweinidogol i fynd i'r afael â cham-drin domestig. Mae adrannau o'r papur hwn yn rhoi mwy o fanylion am yr ymatebion gan ein Hadrannau Tai ac Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cynyddwyd y ffrwd ariannu ar gyfer rhoi cymorth i fentrau cam-drin domestig yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2002 roedd y gyllideb yn £0.5 miliwn ac ar ôl cynnydd seithblyg mae bellach yn £3.6 miliwn. Mae'r arian hwn yn cefnogi 16 o brosiectau ledled Cymru ar hyn o bryd gyda chydgysylltydd ym mhob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Y flaenoriaeth allweddol ar gyfer yr arian hwn fu rhoi cymorth ychwanegol i ddioddefwyr. Ymhlith y cerrig milltir nodedig mewn blynyddoedd diweddar roedd lansio'r llinell gymorth cam-drin domestig 24 awr; cyhoeddi llyfryn canllawiau i ysgolion, cymorth ychwanegol i blant mewn llochesi, datblygu llinell gymorth i ddynion, rhaglen beilot i droseddwyr (yn ogystal â'r rhaglenni a gynhelir gan y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr), a'r gwasanaeth allgymorth du a lleiafrifoedd ethnig yng Ngogledd Cymru.

Cydweithrediad parhaus â'r Swyddfa Gartref. Mae adran yn y papur hwn sy'n amlygu sut y mae'r cydweithrediad hwn yn helpu i gyflwyno nodau'r Strategaeth i gynyddu'r gyfradd o gam-drin domestig a gofnodir a chynyddu'r gyfradd o droseddwyr a gaiff eu dwyn o flaen eu gwell.

Ni ddiystyrwyd pwysigrwydd mentrau yn y gweithle. Yn 2007 cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bolisi gweithle newydd gyda'r nod o roi diogelwch yn y gweithle i ddioddefwyr cam-drin domestig. Er mwyn annog y math hwn o arfer yn y sector preifat, lansiwyd taflen polisi gweithle yn 2008. Mae angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â mentrau yn y gweithle ac yn ystod y flwyddyn nesaf bydd trafodaethau gyda'r Gynghrair Gorfforaethol yn Erbyn Trais Domestig ar sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru wella ei hymateb.

Mae'r sail dystiolaeth yn parhau i gael ei datblygu. Gyda chymorth gan yr Is-adran Cymorth Ystadegol Canolog yn 2008, byddwn yn parhau i ymchwilio i ba gasgliad o ddata (gan gynnwys data achosion yr heddlu, ystadegau llinell gymorth, data Gwasanaeth Erlyn y Goron a data lladdiadau), sy'n rhoi'r casgliad mwyaf dibynadwy o ddangosyddion. Mae ymchwilydd gyda'r Swyddfa Gartref sydd wedi'i leoli yn Nhîm Troseddu’r Swyddfa Gartref yng Nghymru ar fin dechrau astudiaeth sy'n archwilio'r materion sy'n gysylltiedig â chofnodion yr heddlu o achosion o gam-drin domestig. Bydd yr astudiaeth yn edrych yn benodol ar ddata achosion yr heddlu, nifer y bobl a arestiwyd a data cynhadledd asesiad risg aml-asiantaeth. Disgwylir i'r astudiaeth gael ei chwblhau erbyn Mehefin 2008 a bydd yn cyfrannu at ddatblygiad parhaus y sail dystiolaeth yng Nghymru.

Rydym wedi comisiynu rhaglen dreigl o adolygiadau ar gyfer pob prosiect a ariennir. Caiff pob prosiect ei archwilio er mwyn sicrhau ei fod yn cyflwyno yn erbyn nodau'r prosiect a'u bod yn rhoi gwerth am arian. Ymhlith y prosiectau sydd eisoes wedi bod yn destun adolygiad mae Llinell Gymorth Cymru Gyfan, Llys Trais Domestig Arbenigol Caerffili ac Uned Diogelwch Merched Caerdydd. Mae Cymorth i Fenywod yng Nghymru yn cael ei werthuso ar hyn o bryd ac yn ddiweddarach yn 2008 caiff rhaglen beilot troseddwyr dynion.

Rydym yn ymwybodol o'r cysylltiadau rhwng cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau. Mae tystiolaeth yn dangos bod hyd at 60-70 y cant o ddynion sy'n ymosod ar eu partneriaid yn gwneud hynny o dan ddylanwad alcohol. Gwyddom fod llawer o waith yn cael ei wneud eisoes ar lefel leol, e.e. cynhaliodd Fforwm Cam-drin yn y Cartref Sir Gaerfyrddin ymgyrch bosteri a matiau diodydd dros gyfnod y Nadolig lle y dosbarthwyd 10,000 o fatiau cwrw i Dafarndai ledled Sir Gaerfyrddin. Ar lefel strategol rydym yn bwriadu gwneud mwy. Mae drafft newydd Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru yn cynnig tri cham gweithredu newydd. Byddwn yn llunio modiwl o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a fydd yn gosod arfer da ar gyfer cydweithio lle mae cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau yn cydfodoli. Byddwn yn archwilio gweithdrefnau gwasanaethau sgrinio ar gyfer cam-drin domestig er mwyn sicrhau y gwneir ymatebion gwasanaeth priodol pan fo cam-drin domestig yn cydfodoli â chamddefnyddio sylweddau ac rydym yn bwriadu archwilio'r ddarpariaeth o hyfforddiant ar y cyd ar gam-drin domestig ar gyfer y gweithlu camddefnyddio sylweddau ac yn trefnu iddo gael ei gyflenwi.

Mae Gweithgor Camddefnyddio Sylweddau Cymru Gyfan yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r Strategaeth. Mae'r Grwp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Adrannau perthnasol o'r Cynulliad ac o sefydliadau allanol allweddol sy'n dod i gysylltiad â dioddefwyr cam-drin domestig yn ddyddiol. Cylch gwaith y Grwp yw monitro a gwerthuso cynnydd Strategaeth Cam-drin yn y Cartref Cymru Gyfan, i roi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac i rannu arfer da sefydledig.

Mae Rhwydwaith Cydlynwyr Cam-drin yn y Cartref Cymru Gyfan, a sefydlwyd yn 2005 i rannu arfer da ledled Cymru, bellach wedi'i sefydlu'n dda. Mae'n galluogi mentrau newydd i gael eu rhannu a'u cyflwyno'n gyflym. Er mwyn cynorthwyo yn y broses hon, cynhelir digwyddiad hyfforddiant Cymru gyfan bob blwyddyn ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Cynhaliwyd y diwethaf ym mis Chwefror 2008 ac roedd y brif drafodaeth yn ymwneud â rhoi mwy o gyfarwyddyd strategol. Mae awydd gwirioneddol ar lefel leol am ymgyrch barhaus ar gyfer gweithredu cydgysylltiedig ledled Cymru.

Mae'r Gweithgor wedi nodi bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud mwy i roi cymorth i ddioddefwyr priodasau gorfodol. Lansiwyd cynllun gweithredu tair blynedd ar 1 Ebrill 2008 i ddatblygu'r gwaith hwn.

Mae addysg yn ganolbwynt pwysig o hyd. Cyhoeddwyd llyfryn canllawiau ar gyfer ysgolion yn 2004. Mae Rhaglen Ysgolion Cymru gyfan yn cynnwys modiwl am gam-drin domestig ac mae'n cyrraedd 97% o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae Prosiect Sbectrwm Tai Hafan, sy'n cyd-fynd â'r Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan, yn cael arian hefyd ac mae'r ddwy raglen hyn yn gwneud llawer o waith cadarnhaol i sicrhau bod dull ysgol gyfan yng Nghymru.

## CYFLWYNO'R STRATEGAETH MEWN CYDWEITHREDIAD Â'R SWYDDFA GARTREF

10. Mae Dr Brian Gibbons yn aelod o Grwp rhyng-Weinidogol Whitehall ar Drais Domestig ac Ymosodiadau Rhyw sy'n edrych ar ffyrdd o gysylltu'r ymateb ledled y DU i'r materion hyn. Ar lefel swyddogol, lleolir yr Is-adran Diogelwch Cymunedol a Thîm Troseddu’r Swyddfa Gartref yng Nghymru ym Merthyr Tudful ac maent yn cydweithio ar amrywiaeth eang o fentrau i ymateb i gam-drin domestig.

11. Cyflawnwyd cynnydd gwirioneddol o ran ymateb cyfiawnder troseddol i gam-drin domestig. Mae'r heddlu, erlynwyr y goron, y farnwriaeth a'r gwasanaeth prawf oll wedi cymryd camau mawr i wella eu gwasanaethau: drwy hyfforddiant; cefnogi a diogelu dioddefwyr; ac wrth ddod â throseddwyr o flaen eu gwell.

12. Yn dilyn Strategaeth Drosedd y Swyddfa Gartref 2008-11, cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Troseddau Treisgar yn ddiweddar sy'n rhoi mwy o bwyslais ar fynd i'r afael â thrais domestig. Ymhlith yr amcanion allweddol mae:

Gwella'r broses o ymchwilio i drais rhywiol a'i erlyn a diogelu plant rhag troseddwyr rhyw - un ffordd o gyflawni hyn yw dyblu'r nifer o Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol sy'n bodoli.

Cyflwyno'r arfer da a ddatblygwyd eisoes wrth fynd i'r afael â thrais domestig – dyblu nifer y Llysoedd Arbenigol Cam-drin Domestig a chyflwyno Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth yn genedlaethol.

Sicrhau fod dioddefwyr trais yn gallu cael gafael ar well gofal a chymorth.

### Llysoedd Arbenigol Cam-drin Domestig, SDVC

13. Mae'r rhaglen llysoedd arbenigol yn ymateb cymunedol cydgysylltiedig i gam-drin domestig sy'n cyfuno ymyriadau cyfiawnder troseddol (e.e. erlynwyr trais domestig dynodedig) ac ymyriadau cyfiawnder nad yw'n droseddol (e.e. cynghorwyr cam-drin domestig annibynnol). Gyda'i gilydd maent yn llunio ymateb aml-asiantaeth sy'n creu gwell diogelwch i ddioddefwyr ac sy'n dod â throseddwyr o flaen eu gwell. Caerffili oedd un o'r ardaloedd a gymerodd ran mewn cynllun peilot SDVC llwyddiannus.

14. Dechreuodd Rhaglen SDVC ym mis Ebrill 2006 gan nodi'r 23 system SDVC cyntaf. Yr ardaloedd a nodwyd ac a gafodd arian yng Nghymru tuag at sefydlu SDVC oedd:

Gwent - £70,000

Caerdydd - £40,000

Castell-nedd Port Talbot (Castell-nedd) - £20,000

Rhondda Cynon Taf (Pontypridd) - £20,000

15. Ar 11eg Medi 2006, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref 28 o systemau SDVC pellach. Y rhai a ddewiswyd yng Nghymru oedd:

Pen-y-bont ar Ogwr

Sir Benfro (Hwlffordd)

Abertawe

Wrecsam

16. Ym mis Mawrth 2008 cyhoeddodd y Swyddfa Gartref fod yr Wyddgrug wedi'i ychwanegu at Raglen SDVC.

### Cynghorydd Cam-drim Domestig Annibynnol (IDVA)

17. Prif swyddogaeth y Cynghorydd Cam-drin Domestig Annibynnol (IDVA) yw rhoi gwasanaeth rhagweithiol i ddioddefwyr cam-drin domestig i'w cadw'n ddiogel. Mae gwaith IDVA yn unigryw yn y modd mae'n asesu'r risg y mae pobl cleient yn ei wynebu ac yn cyflwyno gwasanaeth sy'n briodol i'r lefel honno o risg, gan gynnig gwasanaeth arbennig i'r rhai â risg uchel. Mae IDVA yn gweithio o fewn lleoliad aml-asiantaeth er mwyn sicrhau bod pob asiantaeth yn gwneud ei rhan ac mae'n cydlynu eu gwaith er mwyn cadw pobl yn ddiogel. Mae IDVA yn gweithio gyda goroeswyr ac asiantaethau eraill ac maent yn monitro'r llwybr gofal.

18. Cafodd yr SDVCau presennol (a restrir isod) arian ar gyfer IDVA ar gyfer 2005-06 a 2006/07 (o 2007/08 darperir yr arian gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder). Nid yw'r arian ar gyfer 2008/09 wedi'i gadarnhau eto. Os caiff ei sicrhau, disgwylir na fydd ddim mwy na dim llai na £20,000.

Casnewydd

Tor-faen

Sir Fynwy

Caerffili

Blaenau Gwent

Caerdydd

Castell-nedd Port Talbot

Rhondda Cynon Taf

Pen-y-bont ar Ogwr

Sir Benfro (Hwlffordd)

Abertawe

Wrecsam

19. Ym mis Gorffennaf 2007, cyflwynwyd ardaloedd nad oedd yn SDVC gynigion ar gyfer arian IDVA 2007/08 (£20,000 yr un) a bu'r ardaloedd canlynol yn llwyddiannus:

Bro Morgannwg

Merthyr Tudful

Conwy/Sir Ddinbych

Sir Gaerfyrddin

Cânt eu hystyried ar gyfer arian ar gyfer 2008/09 a 2009/10.

### Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth (MARAC)

20. Arloeswyd MARAC gan Uned Diogelwch Merched Caerdydd ac mae'n cael ei chyflwyno yng Nghymru a Lloegr bellach. Prif nod MARAC yw lleihau'r risg o niwed difrifol neu laddiad i ddioddefwr a chynyddu diogelwch, iechyd a lles dioddefwyr – yn oedolion a phlant. Mewn MARAC bydd asiantaethau lleol yn cwrdd i drafod y dioddefwyr sydd â'r risg fwyaf o gam-drin domestig yn eu hardal. Rhennir y wybodaeth am y risgiau a wynebir gan y dioddefwyr hynny, y camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau diogelwch a chaiff yr adnoddau sydd ar gael yn lleol eu rhannu a'u defnyddio i greu cynllun rheoli risgiau sy'n cynnwys pob asiantaeth.

21. Yn 2007/08 cafodd yr ardaloedd SDVC yng Nghymru £15,000 yr un i gefnogi MARACau. Roedd yr arian hwn yn grant unigryw ar gyfer sbarduno a chefnogi'r adnoddau angenrheidiol i weinyddu'r MARAC ac i brynu neu ddatblygu adnodd rheoli achos i alluogi'r achosion hynny a glywir yn y MARAC i gael eu dogfennu a'u holrhain.

22. Mae'r Swyddfa Gartref yn gobeithio ariannu ardaloedd MARAC ymhellach y flwyddyn nesaf fel rhan o'r broses o gyflwyno'r model yn barhaus ledled Cymru a Lloegr.

### Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)

23. Mae SARC yn cynnig gwasanaeth integredig i ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol lle y gall dioddefwyr gael gofal meddygol, cwnsela seicolegol, cyngor cyfreithiol a chymorth arall, y cyfan mewn un man gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n broffesiynol.

24. Gall canolfannau atgyfeirio ryddhau rhywfaint o'r pwysau sydd ar adnoddau gwasanaethau'r heddlu drwy ddarparu cyfleusterau canolog lle y gallent gwrdd â'r dioddefwr, cynnal archwiliadau fforensig a chasglu tystiolaeth. I ddioddefwyr, gall canolfannau atgyfeirio helpu i liniaru'r straen o ymdrin â'r hyn sy'n digwydd iddynt. Mae dioddefwyr sy'n cael gofal a chwnsela da ar unwaith yn gwella'n fwy cyson ac yn llai tebygol o fod angen cwnsela parhaus a gofal iechyd meddwl hirdymor.

25. Mae Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yng Nghymru wedi'u lleoli yng Nghaerfyrddin, Rhisga a Merthyr Tudful ac yn ystod 2008 bydd tair Canolfan Atgyfeirio bellach yn cael eu hagor yn Abertawe, Caerdydd a Bae Colwyn. Cafodd pob Canolfan £70,000 ar gyfer costau sefydlu'r Ganolfan. Yn ogystal yn 2007/08, cafodd Canolfannau Caerdydd ac Abertawe £25,000 yn ychwanegol yr un tuag at ofynion y Ganolfan.

### POLISÏAU A MENTRAU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol: Gwenda Thomas)

26. Datblygwyd amrywiaeth eang o weithgareddau a mentrau gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan ar fynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref. Amlinellir enghreifftiau ohonynt isod.

### DIOGELU PLANT (Gan gynnwys Cam-drin Domestig)

### Rôl Gofal Cymdeithasol

27. Mae cam-drin domestig yn aml yn cynnwys cartrefi lle mae plant a phobl ifanc. Maent hwy yn ddioddefwyr cam-drin domestig hefyd a chaiff hyn ei gydnabod nawr hefyd fel mater amddiffyn plant - lle mae'n rhaid i fudd gorau'r plentyn fod yn brif ystyriaeth yr asiantaethau statudol.

28. Mae plant sy'n byw mewn cartrefi lle mae cam-drin domestig yn debygol o gael effaith niweidiol i'w hiechyd a'u datblygiad. Felly, mae'n aml yn briodol i blant o'r fath gael eu hystyried yn blant mewn angen.

29. Sefydlwyd Byrddau Lleol Diogelu Plant ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru o dan Ddeddf Plant 2004 ac mae Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i Fyrddau Lleol Diogelu Plant (Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004) yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pobl a chyrff allweddol wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant o dan wahanol amgylchiadau, gan gynnwys cam-drin domestig.

30. Mae'r Canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n gweithio gyda merched a phlant fod yn ymwybodol o'r rhyng-berthynas aml rhwng cam-drin domestig a cham-drin ac esgeuluso plant.

31. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol sydd â'r cyfrifoldeb allweddol dros gydlynu gweithredu i ddelio â phroblemau cam-drin domestig, ar lefel leol. Felly mae angen i Fyrddau Lleol Diogelu Plant gael cysylltiadau sydd wedi'u diffinio'n glir â phob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a Fforwm Cam-drin Domestig, gan gynnwys croesaelodaeth.

32. Dylai'r asiantaethau hyn allu cyfrannu ar y cyd i gynlluniau gwasanaethau plant i gynnwys asesiad o achosion o blant yn cael eu

cynnwys mewn cam-drin domestig, eu hanghenion, digonolrwydd trefniadau lleol i ddiwallu'r anghenion hynny a'r goblygiadau i wasanaethau lleol.

33. Yn aml, yr heddlu yw'r pwynt cyswllt cyntaf gyda theuluoedd lle mae cam-drin domestig yn digwydd. Mae'n arfer da a dderbynnir i roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol pan fyddant wedi ymateb i achos o gam-drin domestig a'i fod yn hysbys bod plentyn yn aelod o'r cartref, yn ogystal â gweld a yw unrhyw rai o'r plant hynny ar y gofrestr amddiffyn plant.

34. Caiff unrhyw bryderon penodol am ddiogelwch neu les plentyn eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol. Dylai unrhyw ymateb gan y gwasanaethau cymdeithasol i atgyfeiriadau o'r fath fod yn synhwyrol, o ran cysylltu â merched mewn ffyrdd na fydd yn eu peryglu hwy na'u plant ymhellach. Mewn achosion eithafol, efallai y bydd angen amddiffyn plentyn ar unwaith.

35. Fodd bynnag, gallai rhai plant sy'n profi cam-drin domestig gael mwy o fudd o amrywiaeth o gefnogaeth a gwasanaethau, ac efallai y bydd angen diogelu rhai rhag niwed. Yn aml, cefnogi rhiant nad yw'r dreisgar yw'r ffordd fwyaf effeithiol o hyrwyddo lles y plentyn. Mae gan yr heddlu ac asiantaethau eraill bwerau wedi'u diffinio o dan y gyfraith droseddol a'r gyfraith sifil y gellir eu defnyddio i helpu'r rhai sy'n destun cam-drin domestig.

36. Hefyd mae'r canllawiau i Fyrddau Lleol Diogelu Plant yn cydnabod bod cam-drin domestig yn digwydd mewn ffurfiau eraill heblaw'r hyn a gysylltir fel arfer â gwrthdaro o fewn y teulu. Mae hyn yn cynnwys priodasau gorfodol, curfâu/lladdiadau er anrhydedd a llurgunio organau rhywiol merched. Mae'r Canllawiau yn pwysleisio pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng priodasau gorfodol (lle na roddir cydsyniad ac mae'r naill neu'r llall o'r cyfranogwyr yn gyfranogwr anfodlon) a phriodasau wedi'u trefnu, sy'n gwbl gyfreithlon ac sy'n arwain at gydberthnasau llwyddiannus a sefydlog rhwng partneriaid bodlon, sy'n cydsynio.

37. Mae gofyn i bob adran gwasanaethau cymdeithasol gael gweithdrefnau a phrotocolau sy'n cynnwys ymdrin ag achosion lle yr honnir priodas orfodol neu lle y mae'n hysbys.

### Rôl CAFCASS Cymru

38. CAFCASS Cymru sydd â'r prif gyfrifoldeb dros ddiogelu a hyrwyddo buddiannau gorau plant drwy ei rôl o ddarparu cyngor a chymorth gwaith cymdeithasol annibynnol i'r Llys mewn Achosion o Gyfraith Teulu.

39. Mae CAFCASS CYMRU yn ymwybodol bod Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, a120, wedi diweddaru'r diffiniad o "niwed" yn Neddf Plant 1989 a.31 (9) i gynnwys "impairment suffered from seeing or hearing the ill-treatment of another." Effaith y diweddariad yw sicrhau bod y diffiniad o niwed sylweddol bellach yn cynnwys cam-drin domestig, neu gam-drin rhywun arall yn y cartref ac mae'n symud y ffocws o weld y plentyn fel "dioddefwr", h.y. mewn perygl o niwed corfforol i un o "dyst" h.y. rhoi pwyslais ar ystyried y goblygiadau emosiynol o "weld neu glywed" gwrthdaro rhwng rhieni. Felly, yng nghyd-destun amddiffyn plant, mae i gam-drin domestig a'r effeithiau posibl ar y plentyn bwysigrwydd hyd yn oed yn fwy.

40. Mae'r flaenoriaeth y mae CAFCASS CYMRU yn ei roi i'r mater o gam-drin domestig a gwrthdaro rhwng rhieni a'i effeithiau niweidiol posibl ar blant a'u teuluoedd yn adlewyrchu'r mentrau a'r datblygiadau canlynol:

### Pecyn Cymorth Cam-drin Domestig

41. Mae'r adnodd hwn, a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2006, yn cael ei ddefnyddio gan ymarferwyr lle mae Cam-drin Domestig yn fater, neu y gallai fod yn fater. Mae'n rhoi canllawiau ynghylch mesurau diogelwch a mesurau ataliol, lleihau risg ac asesu sefyllfaoedd plant lle mae cam-drin domestig yn berthnasol. Fe'i diwygiwyd yn ddiweddar i ymgorffori gweithdrefn asesu risg newydd a chanfyddiadau ymchwil mwy diweddar. Ailgynlluniwyd y ddogfen yn llwyr i'w gwneud yn haws ei defnyddio. Bydd y ddogfen ddrafft gyflawn ar gael i'w hystyried gan sefydliadau ym mis Ebrill 2008.

### Pecyn Asesu Gwrthdaro Rhwng Rhieni

42. Mae CAFCASS CYMRU yn cydnabod y gallai plant fod mewn perygl o niwed seicolegol ac emosiynol pan fyddant yn cael eu hamlygu i wrthdaro rhwng rhieni (h.y. lle mae'r gwrthdaro'n ddwys, yn aml ac wedi'i ddatrys yn wael). Mae Cam-drin Domestig yn aml yn bodoli fel ffurf eithafol o wrthdaro o'r fath ac fel y cyfryw gall amlygu'r plentyn i risg benodol. Gyda hyn mewn golwg, mae CAFCASS CYMRU wedi comisiynu Dr Gordon Harold o Brifysgol Caerdydd i ddatblygu pecyn asesu sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel y gellir rhoi offer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ymarferwyr sy'n cynorthwyo gyda'r broses o asesu effeithiau gwrthdaro rhwng rhieni ar blant unigol. Caiff y pecyn a'i offer cyfansoddol eu gweithredu drwy'r sefydliad yn ystod ail ran 2008, a bydd yn helpu i atgyfnerthu ac ategu asesiadau ymarferwyr o blant.

### Datblygu Protocol Datgelu gan CAFCASS CYMRU,

### Cafcass (Lloegr) ac A.C.P.O. (Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu)

43. Mewn materion o gyfraith Preifat - lle mae rhiant neu unigolyn arwyddocaol arall mewn anghydfod dros faterion fel cyswllt â'u plentyn a/neu breswylfa'r plentyn - bydd CAFCASS CYMRU yn cynnal asesiad ac yn cynghori'r Llys o amgylchiadau presennol y plentyn. Mae hyn yn cynnwys gwirio gwybodaeth gan asiantaethau eraill fel yr Heddlu - gwybodaeth a allai fod yn hanfodol o ran sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn parhau i fod felly mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i drefniadau. Mae'r Protocol Datgelu, sydd bellach yn ei gamau datblygu terfynol, yn adlewyrchu'r safonau gofynnol ar gyfer asiantaethau llofnodi o ran rhannu gwybodaeth, ac mae'n hyrwyddo arfer gorau o ran diogelu plant o fewn achosion cyfraith Preifat. Prif nod y Protocol Datgelu newydd yw gwella ansawdd y wybodaeth gan yr Heddlu ym mhob achos, gan gynnwys gwybodaeth mewn perthynas â cham-drin domestig a phryderon

lles plant eraill. Mae trefniadau eraill sy'n cyd-fynd â'r Protocol hwn, fel ceisiadau mewn perthynas ag adroddiadau adran 120 ac adran 7 yn parhau ochr yn ochr â mentrau lleol eraill.

### Deddf Mabwysiadu a Phlant 2006

44. Gweithredwyd rhan 1 o'r Ddeddf ar 1af Hydref 2007. Fel y cyfryw, mae'n ofynnol i ymarferwyr CAFCASS CYMRU bellach ymgymryd â ffeilio adroddiad asesu risg gyda'r Llys lle mae achos i gredu y gallai plentyn fod mewn perygl o niwed - gallai hyn gynnwys cam-drin domestig diweddar a/neu sefyllfaoedd o wrthdaro rhwng rieni. Datblygwyd canllawiau ac offer er mwyn cynorthwyo ymarferwyr i gyflawni asesiadau risg o'r fath, a darparwyd hyfforddiant drwy'r sefydliad.

45. Disgwylir i Ran 2 o'r Ddeddf gael ei gweithredu ym mis Tachwedd 2008. Fel rhan ohoni, bydd y Llys yn gallu gwneud Cyfarwyddyd Gweithgaredd Cyswllt mewn unrhyw fater o Gyfraith Preifat lle y mae cysylltiad yn fater. Gall gweithgareddau o'r fath gynnwys cyfeirio pobl at raglenni troseddwyr Cam-drin Domestig addas er mwyn mynd i'r afael â'u hymddygiad treisgar cyn hybu cysylltiad pellach. Yn ogystal â nodi darpariaeth gweithgareddau o'r fath, gall fod yn ofynnol i CAFCASS CYMRU fonitro cydymffurfiaeth lle y gwneir Cyfarwyddyd Gweithgaredd Cyswllt neu y gosodir amod, a rhoi adroddiad i'r Llys. Mae swyddogion o'r Is-adran Diogelwch Cymunedol a CAFCASS CYMRU eisoes wedi dechrau ar gyfres o gyfarfodydd i drafod sut y gellir defnyddio'r rhaglen troseddwyr peilot newydd orau i fodloni'r gofyniad deddfwriaethol newydd hwn.

## GWASANAETHAU AR GYFER YR HENOED A PHOBL SY'N AGORED I NIWED

46. Gall yr henoed ddioddef o gam-drin domestig gan bartner, aelod o'r teulu neu ofalwr hefyd. Cydnabyddir pwysigrwydd datblygu polisi ac arfer mewn perthynas â'r mater arwyddocaol hwn o fewn maes Gofal Cymdeithasol.

47. Ar hyn o bryd mae Age Concern Cymru yn cael ei ariannu gan Comic Relief i ddatblygu gwaith eiriolaeth yng Nghymru fel modd allweddol o fynd i'r afael â cham-drin pobl hyn. Mae'r prosiect yn gyfle pwysig i wneud cyfraniad allweddol ac arloesol i waith yn y maes hwn, gyda'r nod cyffredinol o fynd i'r afael â materion cam-drin yr henoed yng Nghymru drwy:

·Dylanwadu ar bolisi ac arfer fel y bydd cam-drin yn llai tebygol ac yr eir i'r afael ag ef yn fwy effeithiol pan fo'n digwydd.

·Cynyddu ymwybyddiaeth cyffredinol y cyhoedd o'r mater o gam-drin yr henoed, ei fod yn anghywir ac ni ddylid ei oddef.

·Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o werth eiriolaeth wrth ddiogelu a ymrymuso pobl hyn.

48. Caiff yr henoed sy'n byw mewn lleoliad annomestig eu cynnwys gan Ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru "Mewn Dwylo Diogel - Rhoi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion ar Waith yng Nghymru". Diffinnir oedolyn sy'n agored i niwed yn y Canllawiau yn berson dros 18 oed "who is or may be in need of community care services by reason of mental or other disability, age or illness and who is or may be unable to take care of himself or herself, or unable to protect himself or herself against significant harm or serious exploitation."

49. Mae'r canllawiau "yn mynd i'r afael â'r angen i ddatblygu codau ymarfer aml-asiantaeth sy'n seiliedig ar fframwaith cyson ar gyfer diogelu oedolion sy'n agored i niwed ledled Cymru. Dylid eu cydlynu'n lleol gan adran gwasanaethau cymdeithasol pob awdurdod lleol, ond dylent hefyd gynnwys gwasanaeth yr heddlu, y gwasanaeth iechyd a ... y sector annibynnol." Mae'r lefel hon o amddiffyniad yn ogystal â'r diogelwch a gynigir i bob oedolyn gan y gyfraith.

## GWASANAETHAU IECHYD A CHAM-DRIN DOMESTIG

### Llawlyfr Adnoddau'r GIG ar Gam-drin Domestig

50. Cyhoeddwyd Trais yn y Cartref: Llawlyfr Adnoddau i Weithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd yng Nghymru gyntaf ar draws GIG Cymru yn 2001. Dyma'r canllawiau sylfaenol ar gyfer pob aelod o staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â dioddefwyr cam-drin domestig o hyd, ond mae'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd er mwyn cael ei ailgyhoeddi gyda fformat diwygiedig sy'n haws i'w ddefnyddio gan staff rheng flaen.

### Llwybr Ymholiad Rheolaidd Cynenedigol

51. Mae'n ffaith a gydnabyddir bod Cam-drin Domestig yn aml yn dechrau neu'n dwysau yn ystod beichiogrwydd (RCOG 2004 - Why Mothers Die 2000 – 2002).

52. Felly cynhyrchwyd y Llwybr Ymholiad Rheolaidd Cynenedigol gan Grwp Rhwydweithio Cam-drin Domestig Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan fel rhan o brosiect sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Mae'r Llwybr yn adlewyrchu'r canllawiau yn Trais yn y Cartref: Llawlyfr Adnoddau i Weithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd yng Nghymru (LICC 2001).

53. Defnyddir y Llwybr hwn ym mhob Uned Cynenedigol ledled Cymru bellach. Mae hyn yn sicrhau y gofynnir cyfres o gwestiynau wedi'u sgriptio i bob merch sy'n mynychu Gofal Cynenedigol yn rheolaidd er mwyn eu hannog i ddatgelu unrhyw achosion o gam-drin domestig.

54. Cefnogir y Llwybr gan set o safonau gofynnol sy'n pwysleisio anghenion dioddefwyr cam-drin domestig; yr angen am breifatrwydd, cyfrinachedd a chwestiynu sensitif gan staff nad yw'n eu barnu.

55. Mae'r safonau hyn yn annog cyfrinachedd proffesiynol wrth ymdrin â materion sensitif o'r fath; mae'n sicrhau diogelwch y dioddefwr a'r aelod o staff a'r system atgyfeirio priodol ar gyfer cymorth a gwybodaeth. Gellir cynnwys atgyfeiriadau o dan weithdrefnau amddiffyn

plant hefyd.  Mae'r Llwybr yn destun archwiliad blynyddol fel y gellir gwella'n barhaus.

### Llwybr Ymholiad Rheolaidd Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys (Peilot)

56.  Ar ôl llwyddiant yr Ymholiad Rheolaidd Cynenedigol, cynlluniwyd llwybr symlach i gynorthwyo staff mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys prysur i ymdrin â phobl a allai fod yn ddioddefwyr cam-drin domestig.  Tra y gallai eu rhesymau am ddod i'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys fod o ganlyniad i anafiadau sy'n deillio o gam-drin domestig, nid dyna yw'r achos bob tro.

57.  Y neges sylfaenol a roddir i ddioddefwyr yw bod Cam-drin Domestig yn drosedd - ni ddylid beio'r dioddefwyr; mae gan bawb yr hawl i fyw eu bywydau heb ofn a thrais ac mae cymorth ar gael.

58.  Caiff hyn ei dreialu yn Ymddiredolaeth GIG Abertawe gyda'r bwriad o'i gyflwyno ledled Cymru ar ôl gwerthusiad.  Mae Hyfforddiant ar gyfer Hyfforddwyr yn dechrau ym mis Ebrill 2008.

### Rôl Ymarferwyr Gofal Sylfaenol

59.  Ar ôl cyhoeddi dogfen Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA), “Domestic Abuse”, ym mis Gorffennaf 2007, comisiynodd y Gweinidog Iechyd waith i sicrhau bod gwybodaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig ar gael yn eang drwy bob lleoliad Gofal Sylfaenol yng Nghymru.

60.  Er bod llawer o wybodaeth eisoes ar gael i Ganolfannau Iechyd a chlinigau dros y blynyddoedd, dangosodd archwiliadau dirybudd nad oedd yn cael ei harddangos bob amser neu nad oedd yn cael ei harddangos yn briodol.

61.  Nid yw dioddefwyr Cam-drin Domestig yn mynd i gael eu gweld yn darllen posteri a thaflenni gwybodaeth mewn ardaloedd aros cyhoeddus bob amser - felly gofynnir i bob Ymarferwr Meddygol Cyffredinol a Deintyddol sicrhau bod rhifau Llinell Gymorth wedi'u harddangos mewn ardaloedd mwy “preifat” fel toiledau cleifion ac ymwelwyr.

### Galw Iechyd Cymru a'r Gwasanaethau Ambiwlans

62.  Mae Galw Iechyd Cymru wedi sefydlu cronfa ddata o grwpiau hunan-gymorth a chymorth sy'n cynnwys rhestr gynhwysfawr o wasanaethau cymorth cam-drin domestig.  Mae'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd yn ogystal â'u staff eu hunain a staff ambiwlans.  Mae'r wybodaeth yn cynnwys manylion grwpiau fel:

·Cymorth i Ddioddefwyr (yn cynnwys pob un o'r pum rhanbarth yng Nghymru)

Cymorth i Fenywod (grwpiau amrywiol ledled Cymru)

·Grwpiau cymorth lleol ar draws bob lleoliad yng Nghymru.

63.  Weithiau defnyddir gwybodaeth am wasanaethau cymorth i ddioddefwyr gan Barameddygon sy'n ymateb i alwadau 999 hefyd, ond lle nad oes angen derbyn claf i'r ysbyty (e.e. lle mae unigolyn wedi'i anafu yn ddioddefwr cam-drin domestig posibl, ond nad yw'n dymuno cael ei dderbyn i'r ysbyty).

### Cydweithio ag asiantaethau eraill

64.  Gwahoddir swyddogion polisi iechyd i gymryd rhan yn y Gweithgor ar Gam-drin Domestig (o dan arweiniad cydweithwyr yn yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol).  Mae presenoldeb yn y gorffennol gan swyddogion iechyd yn y Grwp hwn, sy'n rhoi cyngor ar strategaeth ac sy'n rhoi fforwm ar gyfer rhannu arfer da, wedi bod yn ysbeidiol.  Caiff ei gydnabod bellach fel maes lle y dylid cryfhau cydweithio er mwyn sicrhau y nodir goblygiadau polisi iechyd ar gam cynnar y trafodaethau a'r datblygiadau.  Bydd hyn yn rhoi neges fwy clir i Ymddiriedolaethau a BILlau hefyd am bwysigrwydd cyfranogiad gweithredol sefydliadau iechyd lleol wrth weithio mewn partneriaeth gymunedol.

65.  Un enghraifft o fenter lle nad oedd gwasanaethau Iechyd yng Nghymru wedi bod yn ymwneud ag ef yn briodol o'r dechrau oedd datblygu SARC.  Gall cyfraniadau ffurfiol gan staff meddygol a nyrsio'r GIG wneud cyfraniad sylweddol i leihau'r trawma a ddioddefir gan oedolion sy'n mynd i SARC, drwy osgoi'r angen i'w hatgyfeirio ymhellach i Glinigau lleol ar gyfer profion heintiau a drosglwyddir drwy ryw.  Yn yr un modd, lle y mae plant yn mynychu cyfleusterau SARC ar ôl amheuon o gam-drin rhywiol, gall cynnwys Pediatregyddion lleol ar y safle fod o werth mawr.  Mae swyddogion yn gweithio i sicrhau bod gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG well ddealltwriaeth o rôl y gwasanaethau iechyd wrth gyfrannu adnoddau a chymorth i bartneriaethau diogelwch cymunedol lleol bellach.

### POLISÏAU A MENTRAU TAI (Dirprwy Weinidog ar gyfer Tai:  Jocelyn Davies)

### Darparu Gwasanaethau

66.  Sefydlodd cyflwyniad Cefnogi Pobl yng Nghymru ym mis Ebrill 2003 arian newydd a fframwaith weinyddu ar gyfer darparu cymorth sy'n seiliedig ar lety i bobl sy'n hawdd eu niweidio, gan gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig.

67.  Yn draddodiadol llochesau fu'r ddarpariaeth o wasanaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig.  Tra bod y ddarpariaeth hon yn hanfodol bwysig ledled Cymru, cydnabyddir gan Lywodraeth y Cynulliad y gall mathau eraill o ddarpariaeth fod yr un mor effeithiol.  Mae cynlluniau cymorth i denantiaid mawr ledled Cymru sy'n rhoi cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig yn eu cartrefi eu hunain.  Mewn rhai achosion, er mwyn i deuluoedd aros yn eu cartrefi eu hunain mae angen gwasanaethau eraill er mwyn sicrhau diogelwch y

dioddefwr a'i blant, e.e. larymau neu ddiogelu'r targed. Fodd bynnag, mae hyn galluogi'r dioddefwr a'i deulu i aros yn ei gartref ei hun a pharhau i fynd i'r un ysgolion a chael yr un rhwydweithiau cymdeithasol, nad yw'n bosibl bob amser mewn lloches ymhell oddi cartref.

68. Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod sbectrwm o wasanaethau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig ar gael iddynt; felly mae cynllunio gwasanaethau'n hanfodol.

### Cynllunio Gwasanaethau

69. Mae gan bob Grwp Cynllunio Cefnogi Pobl, y mae eu haelodau craidd yn cynnwys swyddog arwain Cefnogi Pobl ac uwch swyddogion neu reolwyr comisiynu sy'n cynrychioli swyddogaeth Dai, y swyddogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaeth Iechyd (BILl) a'r Gwasanaeth Prawf. Yn ogystal, gall Grwp Cynllunio Cefnogi Pobl ystyried ei bod yn briodol cynnwys aelodaeth o ymarferwyr neu ddarparwyr cymorth; neu i gael cyflwyniadau i ategu'r data lleol gyda data rhanbarthol neu genedlaethol.

70. Mae'r Grwp Cynllunio Cefnogi Pobl yn gyfrifol am sefydlu Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl, sef y ddogfen graidd ar gyfer sefydlu'r rhaglen wasanaethau Cefnogi Pobl ac mae'n gweithredu fel dull cynllunio adnodd refeniw.

71. Cyfrifoldeb y Grwp Cynllunio yw sicrhau y caiff unrhyw wybodaeth strategol sy'n berthnasol i angen ei hystyried, gan gynnwys cysylltiadau â chynlluniau a gwasanaethau eraill. Bydd cynlluniau eraill yn cynnwys:

Y Cynllun Gofal Cymdeithasol

Cynllun Iechyd a Lles

Strategaeth Tai Lleol

Strategaeth a Fforwm Cam-drin Domestig lleol; a prosesau cynllunio sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, amddiffyn plant, digartrefedd, diogelwch cymunedol a chamddefnyddio sylweddau.

72. Dylid pennu'r angen am wasanaethau drwy ddefnyddio data o'r Ymarfer Mapio Angen, mapio cyflenwi gwasanaethau presennol a thrwy ymgynghori â darparwyr gwasanaethau lleol a rhanbarthol. Mae'r olaf yn arbennig o arwyddocaol wrth ystyried trefniadau cydgomisiynu ar gyfer darpariaeth traws-awdurdod.

### Cyllido

73. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli arian ar gyfer llochesi a chynlluniau cefnogi tenantiaid ledled Cymru yn ystod 2007/08. Cânt eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy Grant Refeniw Cefnogi Pobl. Mae rhywfaint o'r arian hwn yn mynd yn uniongyrchol i grwpiau Cymorth i Fenywod ac eraill drwy Ddarparwyr Cymorth Achrededig i grwpiau Cymorth i Fenywod neu sefydliadau eraill sy'n rhoi gwasanaethau i ferched sy'n dianc rhag cam-drin domestig.

Abertawe - £663,039

Blaenau Gwent - £0 (yma caiff lloches arbenigol ei datblygu)

Bro Morgannwg - £90,275

Caerdydd -£2,448,553

Caerffili -£284,651

Casnewydd – £418,348

Castell-nedd Port Talbot - £954,579

Ceredigion -£11,410

Conwy -£385,964

Gwynedd - £387,353

Merthyr - £69,986

Pen-y-bont ar Ogwr -£171,928

Powys - £555,125

Rhondda Cynon Taf - £1,279,898

Sir Benfro -£249,649

Sir Ddinbych - £649,502

Sir Gaerfyrddin -£365,119

Sir Fynwy - £581,833

Sir y Fflint -£430,658

Tor-faen - £88,505

Wrecsam - £101,510

Ynys Môn -£147,294

### Callawiau Cam-drin Domestig: Cefnogi Pobl a gweithio Aml-asiantaeth

74. Mae'r angen i ddatblygu gwasanaethau newydd ac arloesol sy'n gallu rhoi amrywiaeth eang o ddewisiadau tai a chymorth wedi'i gydnabod gan Lywodraeth y Cynulliad.

75. Cynlluniwyd y canllawiau, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2007, i gynorthwyo cyrff comisiynu er mwyn sicrhau bod amrywiaeth briodol o gymorth a llety ar gael i gartrefi sy'n dioddef cam-drin domestig ac er mwyn annog gweithio mewn partneriaeth i sicrhau y caiff polisïau, gweithdrefnau ac arferion priodol eu gweithredu. Dylai hyn gynnwys protocolau ar rannu gwybodaeth sy'n cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth, ond sy'n ymdrechu i feithrin cydberthnasau ac ymddiriedolaeth rhwng asiantaethau.

76. Ei nod yw hwyluso'r broses o ddatblygu a gweithredu dull 'cydgysylltiedig' o ddatrys problemau sy'n mynd i'r afael â cham-drin domestig yn gyfannol.

77. Mae'r canllawiau hyn yn datblygu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â Cham-drin Domestig, drwy ddiogelu a chefnogi dioddefwyr cam-drin domestig a'u plant er mwyn cynnal llety sefydlog.

### Strategaeth Cefnogi Pobl

78. Mae'r Tîm Polisi Tai â Chymorth yn datblygu Strategaeth Cefnogi Pobl/ Cymorth sy'n gysylltiedig â Thai ar hyn o bryd. Nod strategaeth Cymru yw codi proffil Cefnogi Pobl a rhoi cyd-destun ar gyfer meysydd polisi eraill o fewn Llywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Y bwriad yw nodi sut y mae Cefnogi Pobl yn cysylltu ar draws meysydd polisi eraill fel digartrefedd, cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau, ond bod yn glir am ffiniau gwasanaethau Cefnogi Pobl hefyd.

79. Sefydlwyd paneli Mewnol ac Allanol a fydd yn llywio datblygiad y Strategaeth. Gwahoddwyd swyddogion o'r Is-adran Diogelwch Cymunedol i'r Panel Mewnol a gwahoddwyd Cydlynydd Cam-drin Domestig i'r Panel Allanol. Mae'n hanfodol bod y naill a'r llall yn cymryd rhan weithredol wrth ddatblygu'r Strategaeth er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth wedi'i rhannu o agendâu a dull cydgysylltiedig o ddatblygu gwasanaethau i'r rhai sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae ymgysylltiad rhanddeiliaid yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth a chânt eu cynnwys ym mhob cam o'r broses.

### YSTYRIAETH

80. Bu cynnydd sylweddol wrth ymateb i gam-drin domestig yng Nghymru ers lansio'r strategaeth genedlaethol ym mis Mawrth 2005. Mae llawer o dystiolaeth o gydweithio ar lefel genedlaethol a lefel leol, yn ogystal â chydweithrediad rhwng awdurdodaethau. Er hyn, mae llawer i'w wneud o hyd. Er mwyn datblygu hyn ymhellach yn 2008, mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol am ddatblygu Cynllun Gweithredu Strategol newydd a fydd yn sicrhau cyflwyniad parhaus i'r strategaeth. Bydd angen i hyn dorri ar draws portffolios gweinidogol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru a chaiff ei gyflawni drwy ddatblygu'r gwaith da sydd eisoes ar y gweill. Mae'r ymholiad craffu gan y Pwyllgor yn amserol iawn a bydd argymhellion y Pwyllgor yn rhoi llawer o gymorth wrth ddatblygu'r cynllun newydd.

### ARGYMHELLIAD

81. Gwahoddir aelodau i nodi'r papur hwn.

Dr Brian Gibbons AC
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Gwenda Thomas AC
Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol

Jocelyn Davies AC
Dirprwy Weinidog dros Dai